# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 1 Hydref 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

## 230(v5)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Mae'r Llywydd wedi cael gwybod, o dan Reol Sefydlog 12.58, y bydd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn ateb cwestiynau ar ran y Prif Weinidog.

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am gynigion Llywodraeth y DU ar gyfer ymadawiad y DU â'r UE

(45 munud)

**Dogfennau Ategol**

Dyfodol mwy disglair i Gymru: Y rhesymau dros aros yn yr UE

Cynllun gweithredu ymadael heb gytundeb

## 4 Datganiad gan Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth: Paratoi'r economi yng Nghymru ar gyfer Brexit heb gytundeb

(45 munud)

## 5 Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Paratoi'r economi wledig a'r sector pysgodfeydd ar gyfer Brexit heb gytundeb

(45 munud)

## 6 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Paratoi'r gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru ar gyfer Brexit heb gytundeb

(45 munud)

## 7 Datganiad gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Paratoi ein gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ar gyfer Brexit heb gytundeb

(45 munud)

## 8 Cynnig i Gytuno ar y Penderfyniad Ariannol Mewn Perthynas â'r Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)

(15 munud)

**NDM7147** – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)
Adroddiad y Pwyllgor Cyllid
Ymateb gan y Cwnsler Cyffredinol i adroddiad y Pwyllgor Cyllid

## 9 Cyfnod pleidleisio

**Bydd Pwyllgor o'r Cynulliad Cyfan wedi'i gynnull i drafod Cyfnod 2 y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), yn cael ei gynnal ar ôl y Cyfnod Pleidleisio**

Pwyllgor o'r Cynulliad Cyfan

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 26/09/2019 i'w hateb ar 01/10/2019

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Prif Weinidog

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

1 OAQ54411

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fesurau i wella cyfraddau ailgylchu yng Nghymru?

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

2 OAQ54416

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y posibilrwydd o ddatblygu morlyn llanw ym Mae Abertawe?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

3 OAQ54442

**(e)**

Sut y bydd y Prif Weinidog yn defnyddio Cwpan Rygbi'r byd i hyrwyddo allforion o Gymru a mewnfuddsoddi i Gymru?

**Neil McEvoy** *Canol De Cymru*

4 OAQ54425

**(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o werth am arian y cynllun ynni cartref Arbed am Byth?

**Michelle Brown** *Gogledd Cymru*

5 OAQ54446

**(e)**

Pa asesiad sydd wedi'i wneud o sut y byddai Brexit heb gytundeb yn effeithio ar economi Cymru?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

6 OAQ54428

**(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fonitro'r amseroedd aros ar gyfer mynediad at driniaeth orthodontig yng Nghymru?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

**7** OAQ54413

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y potensial ar gyfer ynni gwynt a solar yng nghanolbarth Cymru?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

**8** OAQ54448

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cymorth a roddir i rieni gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gofal plant ac addysg gynnar yn Islwyn?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

**9** OAQ54450

**(w)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi datganiad ar safbwynt Llywodraeth Cymru ynglŷn ag ysgolion preifat?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

**10** OAQ54433

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella'r seilwaith trafnidiaeth yn ne-ddwyrain Cymru?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

**11** OAQ54407

**(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn datblygu gwasanaethau gofal iechyd integredig?

**Lynne Neagle** *Torfaen*

**12** OAQ54421

**(e)**

Pa gamau y mae'r Prif Weinidog yn eu cymryd i sicrhau bod y broses ddiwygiedig ar gyfer gwneud cais am arian i gleifion yng Nghymru yn gweithio'n dda i gleifion yn Nhorfaen?